# Diwteriwm metelig sy'n cael ei ffurfio ar wasgedd uchel

## Cyflwyniad

Mae gwyddonwyr yn gweithio i ddeall y byd o'n cwmpas ac mae'r hyn maent yn ei ddarganfod yn aml yn cael sylw yn y newyddion. Mae gwaith gwyddonwyr yn effeithio ar ein bywydau drwy'r amser, felly mae'n ddefnyddiol gallu deall deunydd ysgrifenedig am wyddoniaeth. Darllenwch y stori newyddion isod am wyddoniaeth ac atebwch y cwestiynau.

## Diwteriwm metelig sy'n cael ei ffurfio ar wasgedd uchel



Bloc concrit dan wasgedd, © Shutterstock

Mewn theori, mae'r holl **elfennau**'n troi'n fetelig ar wasgedd uchel wrth i'r **atomau** gael eu gwasgu'n ddigon agos nes bod yr **electronau**'n cael eu **dadleoli**.

Mae gwyddonwyr wedi ceisio arsylwi meteleiddiad hydrogen, gan mai dyma'r elfen symlaf. Yn 2020, honnodd ymchwilwyr eu bod wedi dangos bod hydrogen, $^{1}\mathrm{H}$, wedi ffurfio cyflwr metelig ar bwysedd o 425 gigapascal. Roeddent yn mesur amsugniad golau isgoch, ac roedd yn gyson â **metel**. Erbyn hyn, mae gwyddonwyr wedi canfod bod **isotop** o hydrogen o'r enw diwteriwm, $^{2}\mathrm{H}$, wedi dangos yr un newid o ran amsugno golau isgoch ar wasgedd uwch o 460 gigapascal. Byddai modd defnyddio'r ymchwil i ddatblygu uwchddargludyddion a thanwydd roced newydd.

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Cwestiynau

1. Disgrifiwch sut mae ïonau ac electronau wedi'u trefnu mewn metel (gallwch gynnwys diagram os yw'n helpu).
2. Eglurwch beth yw electronau dadleoledig a sut maent yn helpu metelau i ddargludo trydan.
3. Ysgrifennwch ystyr y geiriau gwyddonol canlynol o'r stori – ydych chi wedi gweld neu glywed y geiriau hyn o'r blaen? Chwiliwch amdanynt yn yr eirfa ar dudalen 4.

(a) Elfen
(b) Amsugniad
(c) Isotop

Defnyddiwch y raddfa isod i nodi i ba raddau y mae defnyddio'r eirfa yn eich helpu i ddeall y wyddoniaeth yn y stori.

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Ddim yn helpu → Mae'n help mawr

**4.**
(a) Estynnwch ddau bensil o liwiau gwahanol. Rhowch gylch o amgylch unrhyw eiriau gwyddonol mewn un lliw.
(b) Gan ddefnyddio'r lliw arall, rhowch gylch o amgylch tua phump i ddeg gair sy'n cyfleu neges allweddol y stori.

Defnyddiwch y raddfa isod i nodi i ba raddau y mae rhoi cylch o amgylch geiriau yn eich helpu i ddeall y stori newyddion.

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Ddim yn helpu → Mae'n help mawr

Defnyddiwch y raddfa yn y blwch uchod i nodi pa mor hyderus y byddech chi'n teimlo wrth egluro'r stori i'r person wrth eich ymyl. Meddyliwch am rywbeth arall y gallwch ei wneud wrth ddarllen y testun i'ch helpu i ddeall y stori a'i rhannu â'r person wrth eich ymyl.

5. Ysgrifennwch un peth newydd rydych chi wedi'i ddysgu wrth ddarllen y stori newyddion hon am ymchwil gwyddoniaeth.

6. Ysgrifennwch eich crynodeb eich hun o'r stori ar gyfer y dysgwyr eraill yn eich dosbarth. Defnyddiwch yr awgrymiadau isod.
   - Beth mae'r gwyddonwyr wedi'i ddarganfod? Ceisiwch ysgrifennu hyn mewn un frawddeg yn unig. (Canfyddiadau)

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

- I beth oedd y gwyddonwyr yn ceisio ymchwilio? (Cyd-destun)
- Pam mae eu darganfyddiad yn bwysig? (Perthnasedd/cymhwyso)
- Ystyriwch i bwy y mae'n bwysig, a pha effaith y gallai ei chael arnynt. (Effaith)

Mae gwyddonwyr yn cyhoeddi eu canfyddiadau mewn erthyglau ymchwil. Yna, mae awduron a newyddiadurwyr yn ysgrifennu am y rhain ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Gall erthyglau ymchwil a mathau eraill o ddeunydd ysgrifenedig am wyddoniaeth fod yn dechnegol iawn ond byddant bron bob amser yn ymdrin â'r pedwar awgrym yng nghwestiwn 6.

**7.** Darllenwch y stori o'r enw 'Gwasgedd uchel yn gorfodi hydrogen trwm i weithredu fel metel'. Mae hon yn seiliedig ar yr un ymchwil, ond mae wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer cynulleidfa wahanol i'r testun ar frig y daflen waith hon. Gyda beiro neu bensil, amlygwch ddarnau o'r erthygl sy'n cysylltu â phob un o'r pwyntiau bwled yng nghwestiwn 6.

*Awgrym: Gallech rifo'r pwyntiau bwled o 1 i 4 a defnyddio lliw gwahanol ar gyfer pob pwynt bwled.*

**8.** Sut mae'r deunydd ysgrifenedig hwn am wyddoniaeth yn wahanol i'r deunydd ysgrifenedig am wyddoniaeth ar frig y daflen waith hon? Ysgrifennwch eich atebion.

**9.** Dychmygwch eich bod yn awdur gwyddonol proffesiynol. Eglurwch sut y byddech yn ysgrifennu am y gwaith ymchwil hwn ar gyfer:

(a) postiad ar y cyfryngau cymdeithasol
(b) erthygl mewn cylchgrawn i oedolion sy'n gweithio yn y diwydiant cemeg
(c) adroddiad i'r ysgol sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol i ddysgwyr eraill ei ddarllen, gan gynnwys dysgwyr sy'n iau na chi.

*Awgrym: Ym mhob achos, meddyliwch am eich cynulleidfa (mewn geiriau eraill, pwy fydd yn darllen yr hyn rydych chi'n ei ysgrifennu) a'r hyn y gallai fod arnynt ei eisiau a'i angen o'r gwaith ysgrifenedig. Bydd hyn yn eich helpu i ateb y cwestiwn.*

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Geirfa

Mae'r geiriau mewn print trwm yn dermau allweddol ym maes cemeg a gallwch ddod o hyd iddynt yn ein hadnoddau cymorth ar gyfer termau allweddol.

| Gair anghyfarwydd | Beth mae'n ei olygu |
|---|---|
| **Amsugniad** | y broses o gymryd rhywbeth i sylwedd arall |
| **Atom** | y gronyn lleiaf posibl o elfen; mae atomau wedi'u gwneud o brotonau, niwtronau ac electronau |
| **Cyson** | yn digwydd neu'n ymddwyn mewn ffordd debyg bob tro |
| **Electron dadleoledig** | electron mewn moleciwl neu adeiledd nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw atom, ïon, neu fond cofalent penodol ac sy'n rhydd i symud |
| **Electron** | gronyn is-atomig â gwefr negatif sydd ag ychydig iawn o fàs ac sydd i'w ganfod ym mhlisg electronau/lefelau egni atomau |
| **Elfen** | sylwedd pur sydd wedi'i wneud o un math o atom yn unig |
| **Isotop** | atomau sydd â'r un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau |
| **Metel** | elfen sy'n sgleiniog pan fydd yn cael ei thorri, yn hydrin ac yn dargludo trydan yn dda; mae metelau i'w gweld ar ochr chwith ac yng nghanol y tabl cyfnodol, ac maent yn tueddu i golli electronau i ffurfio ïonau positif |
| **Metelig** | wedi'i wneud o fetel, neu'n debyg iddo, neu'n dangos ansawdd metel |
| **Meteleiddio** | pan fydd deunydd yn newid i ymddwyn fel metel |
| **Gwasgedd** | y grym mae hylif neu nwy yn ei gynhyrchu pan fydd yn pwyso yn erbyn ardal |
| **Uwchddargludydd** | sylwedd, yn enwedig metel, sy'n caniatáu i gerrynt trydanol symud yn rhydd drwyddo ar dymheredd isel iawn |

Daw'r diffiniadau o amsugniad, cyson, metelig, gwasgedd ac uwchddargludydd o'r Cambridge Dictionary, https://www.dictionary.cambridge.org © Cambridge University Press. Cyrchwyd Ionawr 2025. Defnyddiwyd gyda chaniatâd.